

**Nodiadau o gyfarfod a gafodd ei gynnal gyda Chyngor Ysgol Uwchradd  
Pontypridd**

**Dydd Llun, 12 Tachwedd am 2.00pm**

**Cyfarfod i drafod cynigion y Cyngor i ad-drefnu darpariaeth ysgolion yn  
ardal Pontypridd**

**Yn bresennol**

Esther Thomas (ET), Cyfarwyddwr Gwasanaeth Dros Dro ar gyfer  
Gwasanaethau Mynediad a Chynhwysiant  
Andrea Richards (AR), Pennaeth Rhaglen Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif  
Nicola Goodman (NG), Uwch Swyddog Rhaglen Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif  
Catrin Edwards, Pennaeth Materion Trawsnewid a Systemau Data  
Emma Griffiths, Rhaglen Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif  
Aelodau Cyngor yr Ysgol - 13 disgybl (Blynyddoedd 7 i 12), ynghyd â 2 aelod  
o staff yr ysgol

Cafodd Cadeirydd Cyngor yr Ysgol ei gyflwyno.

Cyflwyniadau gan swyddogion y Cyngor.

Croesawodd Esther Thomas (ET) bawb i'r cyfarfod ac amlinellodd y cynnig, y  
rhesymau dros y cynnig, pwrpas y cyfarfod, y broses ymgynghori a'r  
amserlenni yn ymwneud â'r broses ymgynghori a'r cynigion eu hunain pe  
baen nhw'n cael eu gweithredu.

Mewn perthynas â newidiadau arfaethedig i ddalgylchoedd, nododd nifer o  
ddisgyblion eu bod wedi mynychu ysgolion Cynradd Coedpenmaen neu  
Maes-y-coed, ond eu bod wedi dewis mynd i Ysgol Uwchradd Pontypridd yn  
hytrach nag i Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen ar gyfer eu haddysg  
uwchradd.

Yna, cafodd cwestiynau eu gwahodd.

***C. Mae'r cynigion i ad-drefnu ysgolion yn rhan o raglen o'r enw  
Ysgolion yr 21ain Ganrif. Beth mae hyn yn ei olygu mewn  
gwirionedd?***

A. Esboniodd ET fod Llywodraeth Cymru yn darparu arian i wella  
ysgolion, ac mae Cyngor Rhondda Cynon Taf (RhCT) yn darparu arian  
cyfatebol. Eglurodd ET ymhellach fod lleoedd dros ben yn cyfateb i  
wastraff arian. Ychwanegodd mai nod y Cyngor yw lleihau nifer yr  
ysgolion uwchradd ac ysgolion cynradd bach oherwydd bod rhai  
ohonyn nhw yn rhy fach a/neu maen nhw mewn cyflwr gwael. Mae'r  
Cyngor yn penderfynu ar faterion fel hyn gan ystyried y darlun  
ehangach.

Cyfeiriodd AR at y cwricwlwm newydd i Gymru a'r angen i sicrhau bod  
ysgolion 'yn addas i'r dyfodol' er mwyn darparu amgylchedd dysgu  
addas ar gyfer yr 21ain Ganrif.

**C. Mae'r rhaglen yn costio £4.7 miliwn. O le mae'r holl arian yma'n dod?**

- A. Eglurodd CE sut mae llywodraeth leol yn benthyg arian, fel morgais, ac yn ei dalu'n ôl. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu 65% o'r cyllid ac mae'r Cyngor yn darparu'r 35% arall.

**C. Beth ydych chi'n ei olygu o ran y term Canolfan Ragoriaeth Chweched Dosbarth?**

- A. Nododd ET mai dyma le mae gyda chi nifer ymarferol o ddisgyblion sydd am astudio pynciau o ystod eang o bynciau ar gael, y cyfleusterau a'r staff gorau i addysgu hyd at Safon Uwch. Ar hyn o bryd, mae rhai disgyblion sy'n teithio yn ystod y diwrnod ysgol i fynd i wersi mewn ysgol gyfagos, a dydy hynny ddim yn ddelfrydol.

Nododd y disgyblion fod 104 o ddisgyblion ar hyn o bryd ym mlwyddyn 12 a 13, gyda'r dewis o tua 20 pwnc, felly, mae maint dosbarthiadau yn fach.

**C. Pam mae Ysgol Gyfun Bryncelynnog wedi'i dewis yn Ganolfan Ragoriaeth Chweched Dosbarth o 2022 o gofio'r effaith ddaearyddol? Hefyd, a fyddai bws penodol ar gael i gludo disgyblion, neu a fyddai disgyblion yn cael tocyn bws?**

- A. Dywedodd ET fod gydag Ysgol Gyfun Bryncelynnog nifer fwy o ddisgyblion gyda chanlyniadau gwell o A\* i C. Ychwanegodd AR y byddai bws penodol neu docyn bws yn dibynnu ar niferoedd disgyblion, a byddai hynny'n cael ei ystyried. Fodd bynnag, byddai trafndiaeth am ddim yn cael ei darparu i ddisgyblion sy'n byw ymhellach na 2 filltir i ffwrdd o'r ysgol.

**C. Mae'r ddogfen ymgynghori yn nodi bod gydag Ysgol Uwchradd Pontypridd ganlyniadau o 100% mewn un categori.**

- A. Yn ôl y data diweddaraf sydd ar gael mewn perthynas â chanlyniadau a niferoedd disgyblion, nododd CE fod lefelau cyflawniad disgyblion ôl-16 Ysgol Gyfun Bryncelynnog yn well na rhai Ysgol Uwchradd Pontypridd. Yn ôl ET, dydy'r Awdurdod Lleol ddim yn awgrymu bod chweched dosbarth Ysgol Uwchradd Pontypridd ddim yn dda, ond mae angen cynnig opsiynau ehangach o ran pynciau. Dim ond 32% o'r disgyblion a oedd wedi dychwelyd i'r chweched dosbarth yn Ysgol Uwchradd Pontypridd, o'i gymharu â bron i 45% yn Ysgol Gyfun Bryncelynnog.

**C. Ydych chi wedi ystyried y byddai disgyblion o Ysgol Uwchradd Pontypridd o bosib yn anghyforddus yn symud i ysgol arall a chwrdd/cymysgu â disgyblion newydd?**

- A. Dywedodd CE y byddai llawer o waith pontio yn digwydd. Ychwanegodd AR y byddai'r gweithgareddau hyn yn debyg i'r rhai a gafodd eu cynnal yn ysgolion Cwm Rhondda a bydden nhw'n helpu disgyblion i wneud ffrindiau newydd. Mae'r Awdurdod Lleol am i

ddisgyblion fod yn hapus yn yr ysgol. Mae gofal bugeiliol yn bwysig iawn ac mae gweithgareddau cymdeithasol yn ogystal â rheolaeth y cwricwlwm yn cael eu hystyried yn ofalus.

**C. Pam does dim cynnig ar gyfer chweched dosbarth ym Mhontypridd?**

A. Esboniodd ET fod dim digon o ddisgyblion yn Ysgol Uwchradd Pontypridd ac Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen i greu chweched dosbarth. Mae angen o leiaf 250 o ddisgyblion i greu chweched dosbarth. Yn ôl y niferoedd presennol, dim ond 245 o ddisgyblion sydd gydag Ysgol Uwchradd Pontypridd ac Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen gyda'i gilydd.

**C. Efallai y bydd lleoliad yng nghanol tref Pontypridd yn fwy deniadol i gadw disgyblion yn y chweched dosbarth.**

A. Esboniodd ET bod y cyllid ôl-16 ddim yn ddigon i dalu costau'r cyrsiau a rhaid defnyddio cyllid Cyfnod Allweddol 3 a Chyfnod Allweddol 4 i gyfrannu at gyllid y chweched dosbarth. Dywedodd CE eto fod Ysgol Gyfun Bryncelynnog ddim â diffyg yn ei chyllideb. Fodd bynnag, pwysleisiodd fod y cynnig yma ddim yn ymwneud ag arian.

**C. Mae'r ddogfen ymgynghori yn dweud bod safonau Safon Uwch yn Ysgol Uwchradd Pontypridd yn wael. A fydddech cystal â dweud wrthon ni sut rydych chi wedi dod i'r casgliad yma?**

A. Cyfeiriodd CE at Set Ddata Graidd Cymru Gyfan a dywedodd fod gyda'r rhan fwyaf o ysgolion sgoriau uchel ar gyfer graddau A i E ar gyfer Safon Uwch. Fodd bynnag, byddai RhCT yn hoffi i bob disgybl gael cyfle gwell i gyflawni graddau A i C, gan fod y rhain yn cael eu hystyried pan fydd disgyblion yn ceisio mynediad at brifysgolion gwell.

Gofynnodd Cyngor yr Ysgol am y Sgôr Pwyntiau Cyfartalog.

Cadarnhaodd CE mai Ysgol Uwchradd Pontypridd oedd â'r sgôr uchaf. Fodd bynnag, dydy hyn ddim yn gymharydd da. Dydy Prifysgolion ddim yn defnyddio'r Sgôr Pwyntiau Cyfartalog yn faen prawf ar gyfer ceisiadau i'r Brifysgol.

Dywedodd Cyngor yr Ysgol fod Ysgol Uwchradd Pontypridd â sgôr uwch mewn 6 o 9 cymhariaeth, o'i gymharu ag Ysgol Gyfun Bryncelynnog. Mewn 7 o 9 cymhariaeth, roedd Ysgol Gyfun Bryncelynnog â sgôr uwch.

Dywedodd ET fod cymharu Ysgol Uwchradd Pontypridd ag Ysgol Gyfun Bryncelynnog ddim yn gymhariaeth deg gan fod Ysgol Uwchradd Pontypridd yn darparu mwy o gyrsiau sgiliau allweddol.

**C. Pa ymchwil ydych chi wedi'i wneud o ran disgyblion Ysgol Uwchradd Pontypridd sydd eisiau mynd i Ysgol Gyfun Bryncelynnog os yw'n cael ei phennu'n Ganolfan Ragoriaeth? A fyddai'n eich synnu chi i glywed bod bron neb eisiau mynd yno?**

A. Ateggodd ET bod yr Awdurdod Lleol ddim yn dweud bod Ysgol Uwchradd Pontypridd yn ysgol wael neu'n chweched dosbarth gwael. Y rheswm y tu ôl i'r cynnig yw lleihau'r angen i fyfyrwyr deithio yn ystod y diwrnod ysgol, achos dydy hyn ddim yn ymarferol ar gyfer y dyfodol.

Awgrymodd AR y dylai disgyblion yn Ysgol Uwchradd Pontypridd siarad â disgyblion o Ysgolion yn Nhonyrefail, Treorci, Y Porth, ac ati, sydd wedi bod mewn sefyllfa debyg yn ddiweddar. Nododd ET fod yna rai Awdurdodau Lleol sydd â dim un ysgol â darpariaeth chweched dosbarth, dim ond colegau trydyddol, e.e. Castell-nedd.

**C. Mae rhai myfyrwyr bob amser yn mynd i'r coleg i astudio cyrsiau penodol, ond ddim ar gyfer Safon Uwch. Sut mae safonau Safon Uwch yng Ngholeg y Cymoedd?**

A. Cytunodd ET fod Coleg y Cymoedd yn canolbwyntio mwy ar gyrsiau galwedigaethol. Fodd bynnag, yn dilyn yr ymgynghoriad/ cynigion yma, mae'n bosibl y bydd y Coleg yn cynnig detholiad ehangach o gyrsiau Safon Uwch.

**C. A fyddai maint dosbarthiadau yn fwy? Mae pryderon fyddai canlyniadau ddim yn gwella pe bai maint dosbarthiadau yn fwy.**

A. Yn ôl AR, y gobaith yw y bydd dosbarthiadau yn fwy o faint, a byddai mwy o ddewisiadau o ran pynciau ôl-16 yn cael eu cynnig mewn un lleoliad.

**C. Os os 200 o blant oedran cynradd ar ein safle, ble byddan nhw'n cael eu gwarsi?**

A. Dywedodd AR y byddai'r Awdurdod Lleol yn cydweithio gyda'r ysgol i benderfynu beth sy'n gweithio orau. Bydd opsiynau'n cael eu hystyried, e.e. defnyddio bloc blwyddyn 7-8, ail-lunio rhannau o'r safle i weddu'r disgyblion newydd, gan gynnwys ardal chwarae awyr agored ar wahân. Hefyd mae gyda'r ysgol lawer o le dros ben eisoes.

Dywedodd NG a CE fod dros 30% o'r adeilad yn wag.

**C. Mae'r ddogfen yn nodi y bydd addysg 3-16 yn Ysgol Uwchradd Pontypridd yn cael ei darparu drwy 'ddull cwbl wahanol'. Beth mae hyn yn ei olygu?**

A. Cyfeiriodd ET at Adroddiad Donaldson ac amlinellodd y cwricwlwm newydd, sef chwe maes dysgu.

**C. Beth sy'n digwydd o ran ein sylwadau ar ôl y cyfarfod yma?**

A. Bydd y cofnodion yn rhan o'r adroddiad ymgynghori sy'n cael ei roi i gynghorwyr RhCT. Yna, byddan nhw'n penderfynu p'un a ddylid mynd ymlaen i'r cam nesaf ai peidio, sef cyhoeddi hysbysiad statudol.

**C. Pryd y bydd penderfyniad terfynol y Cyngor?**

- A. Os yw'r Cyngor yn penderfynu bwrw ymlaen â'r cynigion, yna bydd hysbysiadau statudol yn cael eu cyhoeddi ddiwedd mis Chwefror/Mawrth 2019.

Bydd gwrthwynebiadau yn dod i law ar y cam yma hefyd. Byddai'r penderfyniad terfynol gan yr aelodau etholedig ar ôl iddyn nhw weld yr holl ddogfennau/tystiolaeth.

Cyfeiriodd NG at yr holiadur yn y ddogfen ymgynghori a chafodd pawb eu hannog i'w gwblhau.

Rhoddodd ET ei diolchiadau am eu presenoldeb a'u mewnbwn.

Daeth y cyfarfod i ben am 2.50pm.